



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref CL-01-15

Holl Aelodau Cabinet Awdurdodau Lleol
sydd â chyfrifoldeb am Gynllunio

Copïau at: Prif Weithredwyr
Prif Swyddogion Cynllunio

25 Tachwedd 2015

Annwyl Gyfaill

CL-01-15 Diweddariadau i TAN11 Sŵn – Ymrwymadau'r Cynllun Gweithredu Sŵn (2013-18)

Mae p'un a oes angen ystyried sŵn wrth gynllunio datblygiad newydd, boed hwnnw'n ddatblygiad sy'n gwneud sŵn neu'n ddatblygiad sy'n sensitif i sŵn, yn destun trafod ym *Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 11: Sŵn (1997)*.

Er nad yw'r ystyriaethau a roddir i sŵn wedi newid, mae'r ddeddfwriaeth a'r Safonau Prydeinig sy'n sail iddynt wedi'u hadolygu a'u newid. Diben pennaf y llythyr esboniadol hwn yw diweddarau *TAN 11: Sŵn* yng ngoleuni'r newidiadau hyn, sef yn benodol y system trwyddedu amgylcheddol a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o *British Standard BS 4142:2014, Dulliau graddio ac asesu sain diwydiannol a masnachol* (Hydref 2014).

Yr un pryd, manteisir ar y cyfle i dynnu sylw at elfennau penodol o'r cyngor, sydd wedi bod yn ei le ers 1997, sy'n ymwneud â'r modd y gellir defnyddio'r system gynllunio i leihau effeithiau andwyol sŵn heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygiadau nac ychwanegu heb angen at gostau a beichiau gweinyddol busnes.

Tynnir sylw at baragraff 10 TAN 11, yn enwedig at weithgareddau creu sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Dylid ystyried a oes gwrthdaro posibl rhwng cynigion ar gyfer datblygiad newydd sy'n sensitif i sŵn a gweithgareddau sy'n bod eisoes a rhoi sylw i lefel bresennol y sŵn a ddatguddir ac unrhyw gynnydd y gellir ei ragweld yn y dyfodol. Ni ddylid caniatáu datblygiad sensitif i sŵn fel arfer mewn ardaloedd lle ceir neu lle disgwylir lefelau uchel o sŵn. Ceir yn Atodiad A TAN 11 dabl o gategoriâu datguddiad sŵn ar gyfer anheddau. Dylai hyn helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl ger gweithgareddau creu sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

Ym mharagraff 4, mae TAN11 yn pwysleisio mor bwysig yw cysylltu ag adrannau iechyd amgylcheddol wrth ystyried sŵn a datblygiadau creu sŵn. Yn yr un modd, mae paragraff 12 yn annog ymgynghori buan ag ymgeiswyr ynghylch mesurau posibl i reoli ffynhonnell sŵn neu gyfyngu ar ddatguddiad sŵn.

Ym mharagraffau 5 a 6, mae TAN11 yn dangos pwysigrwydd cynlluniau datblygu ar gyfer nodi polisiau penodol yn ogystal â rhai cyffredinol ynghylch sŵn a lle bo'n arbennig o anodd gwahanu datblygiadau sy'n sensitif i sŵn oddi wrth weithgareddau swnllyd, dylai cynlluniau gynnwys awgrym o unrhyw bolisiau cyffredinol y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu eu defnyddio mewn perthynas ag amodau neu rwymedigaethau cynllunio.

Ym mharagraff 9, dywed TAN11 y dylid ystyried sŵn o ddatblygiad diwydiannol o safbwynt natur a lefel y sŵn hwnnw. Rhoddir cyngor ar sut i asesu sŵn a'r ffactorau y dylid eu hystyried yn Atodiad B TAN11 a thynnir eich sylw yn arbennig at y paragraff B17 newydd a nodir yn atodiadau y llythyr hwn. Dylai awdurdodau gofio bod lefel y sŵn cefndir mewn rhai ardaloedd yn isel iawn ac y gallai cyflwyno gweithgareddau creu sŵn yn yr ardaloedd hynny fod yn arbennig o aflonyddgar.

Mae Atodiad 1 y llythyr hwn yn dangos y newidiadau i'r cyfeiriadau a nodir yn TAN11. Mae Atodiad 2 yn dangos y newidiadau i Atodiadau B, E ac F TAN11 i adlewyrchu'r newid yn y rheoliadau sŵn a'r Safonau Prydeinig newydd.

Yn olaf, yn 2013, cymeradwyais *Good practice guide to the application of ETSU-R-97 for the assessment and rating of wind turbine noise* gan y Sefydliad Acwsteg. Dylai awdurdodau sy'n prosesu ceisiadau ar gyfer codi tyrbinau gwynt nodi bod chwe nodyn canllaw ategol wedi'u cyhoeddi i gefnogi'r canllaw (<http://www.ioa.org.uk/publications/good-practice-guide>). Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd wedi dechrau gwneud rhagor o waith ar fodyliad osgled a bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y gwaith hwn ar yr adeg briodol.

Yn gywir



Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

ATODIAD 1: Diweddaru'r cyfeiriadau yn TAN11

Paragraff yn TAN11	Cyfeiriad gwreiddiol	Yn ei le/cyfeiriad newydd
2	CCC 1996, paragraffau 43-45	CCC 2014, paragraffau 13.13-13.15
12	Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 35/95 "The use of conditions in planning permissions"	Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 016/2014 "The use of planning conditions for development management"
Atodiad A, A6	BS 8233:1987	BS 8233:2014
Atodiad A, A7		Cyfarwyddeb 2002/49/EC
Atodiad B, B1	BS 6472:1992	BS 6472:2008
Atodiad B, B4	BS 6472:1992	BS 6472:2008
Atodiad B, B17	BS 4142:1990	BS 4142:2014
Atodiad B, B17	BS 8233:1987	BS 8233:2014
Atodiad B, B17		Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, fel y'u diwygiwyd
Atodiad B, B19	TAN 8 Ynni Adnewyddadwy (1996), paragraffau A28-A38	TAN 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005), paragraffau 2.14-2.18
Atodiad B, B20	BS 5228 Rhannau 1-4	BS 5228-1:2009+A1:2014
Atodiad B, B23	BS 5228 Rhan 1: 1984	BS 5228-1:2009+A1:2014
Atodiad C, C1	Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 35/95 "The use of conditions in planning permissions"	Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 016/2014 "The use of planning conditions for development management"
Atodiad D, D2	BS 4142:1990	BS 4142:2014
Atodiad D, D9	BS 7445:1991	BS 7445-1:2003

Cyfeiriadau sydd i'w dileu

TAN5 Cadwraeth Natur a Chynllunio, 1996

TAN8 Ynni Adnewyddadwy, 1996

Noise Review Working Party, 1990, HMSO

ATODIAD 2: Paragraffau yn Atodiadau B, E ac F yn TAN11 sydd wedi'u newid

Atodiad B: ASESU SWN O WAHANOL FFYNONELLAU

Sŵn datblygiadau diwydiannol a masnachol

Yn sgil cyflwyno'r system trwyddedu amgylcheddol a diweddarau'r Safonau Prydeinig, dylid dileu'r paragraff B17 presennol a rhoi'r canlynol yn ei le:

B17. Gellir asesu'r tebygolrwydd y ceir effeithiau andwyol o sŵn o natur ddiwydiannol a/neu fasnachol, lle bo BS 4142:2014 yn briodol, drwy ddefnyddio'r canllaw a nodir yn y safon honno. Mae nodweddion tonaid neu ergydol yn y sŵn yn debygol o gynyddu'r siawns o effeithiau andwyol a chaiff hyn ei gymryd i ystyriaeth gan y "lefel gyfraddiad" a ddiffinnir yn BS 4142. Dylid defnyddio'r "lefel gyfraddiad" hon wrth bennu lefel y sŵn y gellir ei chaniatáu. Bydd arwyddocâd sŵn o natur ddiwydiannol a/neu fasnachol fel arfer yn dibynnu i ba raddau y bydd lefel gyfraddiad ffynhonnell y sŵn penodol yn fwy na lefel y sain cefndir a hefyd y cyd-destun lle digwydd y sŵn. Yn ôl y Safon, fel amcangyfrif cychwynnol "A difference of around +10 dB or more is likely to be an indication of a significant adverse impact, depending on the context. A difference of around +5 dB is likely to be an indication of an adverse impact, depending on the context.". Fodd bynnag, efallai y bydd angen newid yr amcangyfrif cychwynnol hwn oherwydd y cyd-destun, ac wrth benderfynu a ddylid ei newid, dylid ystyried y lefel sŵn absoliwt, natur a lefel y sŵn cefndir o'i gymharu â'r sŵn penodol, sensitifedd y derbynydd, a dyluniad da adeilad. Gan fod lefelau sŵn cefndir yn amrywio drwy gydol cyfnod o 24 awr, fe fydd fel arfer yn angenrheidiol asesu pa mor dderbyniol yw lefelau y sŵn ar gyfnodau gwahanol (e.e. dydd a nos) a ddewisir i gyd-fynd ag oriau gweithredu'r datblygiad arfaethedig. Mae ystyriaethau tebyg yn gymwys i ddatblygiadau a fydd yn creu sŵn sylweddol ar y penwythnos yn ogystal ag yn ystod yr wythnos. Yn ychwanegol, gellir cael canllawiau cyffredinol ar lefelau sŵn derbyniol o fewn adeiladau yn BS 8233: 2014. Gellir atodi amodau sŵn wrth drwyddedau amgylcheddol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (fel y'u diwygiwyd). Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth ddelio â safleoedd lle bo'r gweithredwr yn gweithio gyda'r fantais o ganiatâd cynllunio heb amod sŵn. Dylai awdurdodau cynllunio ac awdurdodau trwyddedu amgylcheddol ymgynghori'n glos â'i gilydd yn fuan wrth ystyried a oes angen mesurau penodol ar gyfer rheoli sŵn trwy amodau priodol mewn caniatâd cynllunio neu yn y drwydded amgylcheddol ddilynol.

Sŵn o safleoedd tirlenwi ar gyfer gwaredu gwastraff

Dylid dileu'r paragraff B22 presennol. Rheoleiddir gweithgareddau gwastraff bellach o dan y system trwyddedu amgylcheddol.

Atodiad E: GWYBODAETH AM GYFUNDREFNAU RHEOLI SWN ERAILL

Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Ychwaneger y testun canlynol at y paragraff E3 presennol:

Mae mesurau rheoli sŵn adweithiol ychwanegol bellach ar gael i awdurdodau o dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014. Maent yn cynnwys "gwaharddeb sifil" a'r "hysbysiad gwarchod cymunedol".

Deddf Rheoli Llygredd 1974

Dileu'r paragraff E5 presennol a rhoi'r canlynol yn ei le:

E5. Diddymwyd Rhan III o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 (Deddf 1974) i raddau helaeth yng Nghymru a Lloegr gan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Er hynny, mae'r adrannau hynny sy'n bodoli o hyd yn rhoi pwerau i'r awdurdodau lleol reoli sŵn safleoedd adeiladu, a sŵn uchelseinyddion yn y stryd.

Codau Ymarfer

Dileer y 4 cod ymarfer a restrir ym mharagraff E6 a rhoi'r testun canlynol yn ei le:

Mae gwybodaeth am y Codau Ymarfer sydd ar hyn o bryd mewn grym yng Nghymru i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn [codau ymarfer](#)

Is-ddeddfau a gorchmynion diogelu manau cyhoeddus

Ychwaneger y testun canlynol at y paragraff E7 presennol:

Hefyd, cyflwynodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 "orchmynion diogelu manau cyhoeddus" (PSPOs). Bwriedir PSPOs i ddelio â niwsans neu broblem benodol mewn ardal benodol sy'n cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd cymuned leol, trwy osod amodau ar bawb sy'n defnyddio'r ardal honno. Eu nod yw sicrhau bod y mwyafrif sy'n cydymffurfio â'r gyfraith yn cael defnyddio a mwynhau'r manau cyhoeddus, yn ddiogel rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cyfarwyddbau a Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd

Dileer y paragraff E8 presennol a rhoi'r canlynol yn ei le:

E8. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cyhoeddi cyfarwyddbau a rheoliadau sy'n cyfyngu ar sŵn cynhyrchion, yn enwedig dulliau teithio, offer adeiladu a chynhyrchion penodol eraill fel torwyr gwair ac offer tŷ, yn ogystal â defnyddio'r "technegau gorau sydd ar gael" i leihau sŵn diwydiant mawr. Y prif gyfarwyddbau a rheoliadau (y dylid eu darllen fel "y'u diwygiwyd" os ydynt wedi'u diwygio) yw'r canlynol:

74/151	<i>Cyfarwyddeb ynglyn â rhai rhannau a nodweddion ar dractorau amaethyddol neu goedwigol ar olwynion..</i>
78/1015	<i>Cyfarwyddeb ar y lefel sŵn a ganiateir o feiciau modur a'u systemau gwacáu.</i>
79/113	<i>Cyfarwyddeb ynglyn â phenderfynu ar allyriadau sŵn cyfarpar ac offer adeiladu.</i>
80/51	<i>Cyfarwyddeb ar gyfyngu sŵn o awyrennau is-sonig.</i>
84/532	<i>Cyfarwyddeb ar ymdebygu deddfau'r Aelod-Wladwriaethau ynglŷn â darpariaethau cyffredin ar gyfer cyfarpar ac offer adeiladu</i>
84/538	<i>Cyfarwyddeb ar ymdebygu deddfau'r Aelod-Wladwriaethau ynglyn â lefel pŵer sŵn a ganiateir ar gyfer torwyr gwair.</i>
86/594	<i>Cyfarwyddeb ar sŵn yn yr awyr a gaiff ei ollwng gan offer tŷ.</i>
86/662	<i>Cyfarwyddeb ar gyfyngu sŵn o beiriannau turio hydrolog, peiriannau turio'n cael eu gweithio â rhaffau, teirw dur, llwythwyr a llwythwyr turio</i>
89/629	<i>Cyfarwyddeb ar gyfyngu sŵn o awyrennau jet is-sonig sifil.</i>

92/14	<i>Cyfarwyddeb ar gyfyngu ar weithgarwch awyrennau a ddaw o dan Ran 11, Pennod 2 Cyfrol 1 o Atodiad 16 y Confensiwn ar Hedfan Sifil Rhyngwladol, ail argraffiad (1988).</i>
92/23	<i>Cyfarwyddeb ynglŷn â theiars cerbydau modur a'u treilars ac ynglŷn â'u gosod</i>
96/48	<i>Cyfarwyddeb ar allu systemau rheilffyrdd cyflym traws-Ewropeaidd i ryngweithredu.</i>
97/24	<i>Cyfarwyddeb ar gydrannau a nodweddion penodol cerbydau dwy a thair olwyn</i>
2000/14	<i>Cyfarwyddeb ar ymdebygu deddfau'r Aelod-Wladwriaethau ynglyn ag allyriadau sŵn yn yr amgylchedd o offer i'w defnyddio yn yr awyr agored</i>
2001/16	<i>Cyfarwyddeb ar allu systemau rheilffyrdd confensiynol traws-Ewropeaidd i ryngweithredu.</i>
2002/30	<i>Cyfarwyddeb ar bennu rheolau a gweithdrefnau ynghylch cyflwyno cyfyngiadau gweithredu sy'n gysylltiedig â sŵn ym meysydd awyr y Gymuned.</i>
2002/49	<i>Cyfarwyddeb ynghylch asesu a rheoli sŵn amgylcheddol.</i>
2003/10	<i>Cyfarwyddeb ar y gofynion iechyd a diogelwch lleiaf ynghylch datguddio gweithwyr i risgiau sy'n codi o gyfryngau ffisegol (sŵn).</i>
2006/93	<i>Cyfarwyddeb ar reoleiddio gweithrediad awyrennau a ddaw o dan Ran II, Pennod 3, Cyfrol 1 o Atodiad 16 o'r Confensiwn ar Hedfan Sifil Rhyngwladol, ail argraffiad (1988).</i>
2007/46	<i>Cyfarwyddeb sefydlu fframwaith ar gyfer cymeradwyo cerbydau modur a'u treilars a systemau, cydrannau ac unedau technegol ar wahân a fwriadwyd ar gyfer y cyfryw gerbydau.</i>
1222/2009	<i>Rheoliad ar labelu teiars ynghylch arbed ynni a pharmedrau hanfodol eraill.</i>
2010/75	<i>Cyfarwyddeb ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd mewn ffordd integredig).</i>
2013/53	<i>Cyfarwyddeb ar gychod hamdden a chychod</i>

personol.

540/2014

Rheoliad ar lefel sain cerbydau modur ac ynghylch cyfnewid systemau tawelu.

Rheoliadau Adeiladu

Dileer paragraff E9 a rhoi'r testun canlynol yn ei le:

E9. Mae Rheoliadau Adeiladu 1991 yn gosod gofynion ar gyfer atal sŵn rhwng anheddau neu fflatiau, rhannau eraill yr adeilad ac adeiladau cyffiniol. Mae Dogfen Gymeradwy E Rheoliadau Adeiladu (Gwrthsafedd yn erbyn sŵn) yn cynnig canllaw ar ddylunio ac adeiladu a hefyd y dulliau ymarferol ar sut i gynnal y gofynion sain.

Dileer brawddeg gyntaf paragraff E10 a rhoi'r testun canlynol yn ei le:

E10. Mae Dogfen Gymeradwy E Rheoliadau Adeiladu 2010 yn gosod gofynion hefyd ar atal sŵn rhwng fflatiau ac anheddau sydd wedi'u trosi drwy gynnwys darpariaethau sydd mor agos ag sy'n ymarferol i'r rhai ar gyfer adeiladau newydd.

Sŵn yn y Gwaith

Dileer y paragraff E12 presennol a rhoi'r canlynol yn ei le:

E12. Mae Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith 2005, a orfodir gan arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ac awdurdodau lleol, gan ddibynnu ar natur yr eiddo, yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gymryd nifer o gamau i ddiogelu gweithwyr rhag bod yn agored i sŵn gormodol.

Awyrennau

Dileer y paragraff E13 presennol a rhoi'r canlynol yn ei le:

E13. Nodir y modd y gellir hedfan awyren yn Adran 76 o Ddeddf Hedfan Sifil 1982 ac yn Rheoliadau Rheolau'r Awyr 2015. O dan Adran 76 o'r Ddeddf Hedfan Sifil mae awyrennau wedi'u hesemptio o achosion mewn perthynas â thresbasu neu niwsans, gan gynnwys niwsans sŵn, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â darpariaethau unrhyw Orchymyn Llywio Awyr.

Atodiad F

Dylid dileu'r Atodiad F presennol a rhoi'r canlynol yn ei le:

OFFERYNNAU STATUDOL (y dylid eu darllen fel “y'u diwygiwyd” os ydynt wedi'u diwygio)

Rheoliadau Inswleiddio Sŵn 1975	(SI 1975: 1763)
Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986	(SI 1986: 1078)
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987	(SI 1987: 764)
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Threfn (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 1988	(SI 1988: 1199)

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995	(SI 1995: 418)
Rheoliadau Inswleiddio Sŵn (Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Tywysedig eraill) 1996	(SI 1996: 428)
Rheoliadau Addysg (Eiddo Ysgol) 1999	(SI 1999: 2)
Rheoliadau Sŵn Awyrennau 1999	(SI 1999: 1452)
Rheoliadau Taliadau Sŵn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001	(SI 2001: 604)
Rheoliadau Allyriadau Sŵn yn yr Amgylchedd gan Offer i'w defnyddio yn yr Awyr Agored 2001	(SI 2001: 3958)
Rheoliadau Meysydd Glanio (Cyfyngiadau Sŵn) (Rheoliadau a Gweithdrefnau) 2003	(SI 2003: 1742)
Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005	(SI 2005: 1643)
Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006	(SI 2006: 2629)
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010	(SI 2010: 675)
Rheoliadau Adeiladu 2010	(SI 2010: 2214)
Rheolau Rheoliadau'r Awyr 2015	(SI 2015: 840)

SAFONAU PRYDEINIG

BS 4142:2014, Dulliau graddio ac asesu sŵn diwydiannol a masnachol.

BS 5228-1:2009+A1:2014, Cod ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu ac agored. Sŵn.

BS 5228-2:2009+A1:2014, Cod ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu ac agored. Dirgryniad.

BS 5821-3:1984, Dulliau graddio inswleiddiad sŵn mewn adeiladau ac elfennau adeiladau. Dulliau graddio inswleiddio elfennau ffasâd a ffasadau rhag sŵn yn yr awyr.

BS 6472:2008-1, Canllaw i werthuso dirgryniad a ddatguddir mewn adeiladau i bobl. Ffynonellau dirgryniad heblaw ffrwydriadau.

BS 6472:2008-2, Canllaw i werthuso datguddiad dirgryniad mewn adeiladau i bobl. Dirgryniad o ffrwydriadau.

BS 7445-1:2003, Disgrifio a mesur sŵn amgylcheddol.. Canllawiau i symiau a gweithdrefnau.

BS 7445-2:1991, Disgrifio a mesur sŵn amgylcheddol.. Canllaw ar sut i gael data sy'n berthnasol i

ddefnydd tir.

BS 7445-3:1991, Disgrifio a mesur sŵn amgylcheddol. Canllaw ar sut i gymhwyso terfynau sŵn.

BS 8233:2014, Canllaw ar inswleiddio sŵn a lleihau sŵn mewn adeiladau.

BS EN ISO 717-1:2013, Acwsteg. Graddio inswleiddio sŵn mewn adeiladau ac elfennau adeiladau. Insweiddio sŵn yn yr awyr.

BS EN ISO 717-2:2013, Acwsteg. Graddio inswleiddio sŵn mewn adeiladau ac elfennau adeiladau. Insweiddio sŵn o'r effaith.